





Croeso i’n hymgynggoriad cyhoeddus ar gyfer Parc Ynni Moel Chwa.

Mae Bute Energy yn y camau cynnar o gyflwyno cynigion ar gyfer prosiect ynni adnewyddadwy ar y tir, wedi’i leoli rhwng pentrefi Llanfihangel Glyn Myfyr, Llangwm a Cerrigydrudion, i’r gogledd o’r A5.

Pam rydym wedi dewis y safle hwn?

Ein cenhadaeth yw darparu byd cynaliadwy, nawr ac ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Er mwyn helpu i gyflawni’r nod hwn a mynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd a’r pryderon presennol sy’n ymwneud â sicrwydd ynni, rydym wedi cynnal proses helaeth o ddewis safleoedd i nodi ardaloedd o dir a fyddai’n addas ar gyfer darparu Parc Ynni.

Mae Parc Ynni Moel Chwa o fewn Ardal wedi’i Asesu Ymlaen Llaw ar gyfer Ynni Gwynt ar y tir ar raddfa fawr sydd wedi’i nodi yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, Cymru’r Dyfodol. Yn ogystal, rhoddwyd caniatâd cynllunio hefyd ar gyfer fferm wynt ar y tir ar y safle ar gyfer 11 tyrbin a seilwaith cysylltiedig yn 2011, gan atgyfnerthu ymhellach addasrwydd y safle ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy o’r math hwn.

Bydd ein cynigion cychwynnol yn cael eu mireinio dros y misoedd nesaf mewn ymateb i asesiadau technegol ac arolygon pellach yn ogystal ag adborth a dderbyniwyd gan ymgylgoreion, rhanddeiliaid a phobl leol.

Mae eich barn yn bwysig i ni

Rydym mewn cyfnod cynnar o’n prosiect. Mae Bute Energy wedi ymrwmo i hysbysu, ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau a rhanddeiliaid lleol trwy’r broses ddylunio a chynllunio ac edrychwn ymlaen at glywed eich barn gychwynnol a’ch awgrymiadau ar faterion y dylem eu hystyried wrth i ni barhau i fireinio ein cynlluniau.

Dysgu rhagor am y prosiect




Ewch i – www.parcynnimoelechwa.cymru



Llun o dyrbin gwynt nodweddiadol




Llun o Barc Ynni nodweddiadol



Byd cynaliadwy, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Gyda'n pencadlys yng Nghymru ac yn canolbwyntio ar Gymru, rydym yn gwmni ynni adnewyddadwy annibynnol sy'n cyfuno profiad ag arloesi. Rydym yn ceisio darparu portffolio o barciau ynni, gyda seilwaith addas, gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf sydd wedi'i phrofi i gynhyrchu ynni adnewyddadwy cynaliadwy ar y tir ar draws Cymru.

Mae Bute Energy wedi ymrwymo i wneud y mwyaf o effaith gadarnhaol ein prosiectau i gyflawni:




Gwerth 2 GigaWatt

o drydan glân, cynaliadwy ar draws ein portffolio



Gwerth £3 biliwn

o fuddsoddiad yn economi Cymru



Bydd 6,500

o swyddi yn cael eu creu yn ystod y cyfnod adeiladu ac yn ystod y cyfnod gweithredu bydd lan at 150 o swyddi medrus, hir dymor yn cael eu creu. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn hyfforddiant a phrentisiaethau lleol i dyfu'r gadwyn cyflenwad o ynni adnewyddadwy

Ein gweledigaeth a'n hymrwymiad

Rydym am sicrhau byd cynaliadwy, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Igyflawni hyn, rydym wedi ymrwymo i:

- Helpu i gynyddu capasiti ynni adnewyddadwy Cymru, a chefnogi cyflawni nod Llywodraeth Cymru o ddiwallu 100% o anghenion trydan y wlad drwy ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035.
- Cefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a sicrhau ein dyfodol ynni hirdymor.
- Cyflawni buddion hirdymor a darparu buddsoddiad sylweddol yn y cymunedau o amgylch ein prosiectau
- Gweithio gyda thrigolion lleol i nodi pa faterion y maent yn eu hwynebu o ddydd i ddydd a pha grwpiau, prosiectau neu sefydliadau trydydd sector sydd eisoes yn bodoli y gallem eu cefnogi.

Mae Bute Energy hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod ein prosiectau yn cefnogi ac yn tyfu'r economïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Wrth i ni baratoi ein cais cynllunio byddwn yn edrych i adeiladu rhwydwaith o gyflenwyr lleol i'w symud ymlaen i'r cam caffael, pe cawn ganiatâd cynllunio.

Mae enghreifftiau o'r mathau o gyflenwyr lleol y byddem yn ceisio'u caffael yn cynnwys:

- Gwaith tir
- Deunyddiau
- Adfer a gwella'r amgylchedd
- Rheoli a chynnal a chadw safle





Llun o Barc Ynni nodweddiadol

Megis dechrau y mae ein cynnig ar gyfer Parc Ynni Moel Chwa. Ar hyn o bryd, rhagwelir y gallai'r Parc Ynni gynhyrchu hyd at 79.2MW o drydan, a allai ddarparu digon o bŵer i ddiwallu anghenion tua 51,960* o gartrefi.


*Renewable UK: Wind Energy Statistics Explained (www.renewableuk.com/page/UKWEDEXplained/Statistics-Explained.htm)

Mae dyluniad y fferm wynt yn debygol o ddatblygu yn ystod y broses cyn ymgeisio. Fodd bynnag, ar y cam cychwynnol hwn mae cynigion y prosiect yn cynnwys:

- Hyd at 12 tyrbin, ag uchder blaen uchaf o 200m
- Trawsnewidyddion wedi'u lleoli naill ai o fewn neu'n gyfagos i'r tyrbinau
- Seilwaith ar y safle, gan gynnwys is-orsaf
- Traciau mynediad
- Padiâu craen a cheblau
- Compownd adeiladu dros dro, gan gynnwys swyddfeydd safle
- Cysylltiad â'r grid trydan gan ddefnyddio llinell uwchben (OHL) wedi'i wneud o bolion pren, gan deithio tua 7km i'r dwyrain o'r safle.

Bydd y fferm wynt yn cael ei dylunio ag oes weithredol o 40 mlynedd, gan allforio ynni adnewyddadwy yn uniongyrchol i'r grid cenedlaethol.

Ceir rhagor o wybodaeth am y llinell uwchben ar y bwrdd nesaf.



A oes gennych unrhyw sylwadau am leoliad y tyrbinau arfaethedig? Rhowch wybod i ni fel rhan o'n hymgyngoriad.

Ynglŷn â'r broses ymgeisio


Gan y bydd ein Parc Ynni yn cynhyrchu mwy na 10MW o drydan, mae'n cael ei ystyried yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS).

Mae hyn yn golygu y byddwn yn cyflwyno ein cais cynllunio i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW). Bydd PEDW wedyn yn gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar ein cynigion, ynghylch a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ai peidio.

Dyma gam cyntaf ein hymgyngoriad i ddeall y safbwyntiau cychwynnol ar Barc Ynni Moel Chwa. Yn ddiweddarach eleni byddwn yn cynnal ymgynghoriad statudol, lle bydd pobl yn gallu gweld ein dogfennau cais drafft a rhoi adborth pellach.

Rydym yn dal yn y camau cynnar o ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer y safle. Fel rhan o'n proses ymgynghori hoffem gael eich adborth ar faterion allweddol megis lleoliadau'r tyrbinau arfaethedig, mynediad i'r safle ac oddi yno, ac a oes materion penodol (amgylchedd, bioamrywiaeth, sŵn ac ati...) y dylem eu hystyried fel rhai rydym yn mireinio ein cynlluniau.

Mae gan Bute Energy gytundeb ar waith i gysylltu ag is-orsaf newydd arfaethedig y Grid Cenedlaethol ger Gwyddelwern, tua 7km i'r dwyrain o'r Parc Ynni arfaethedig.



Ein cynnig presennol yw darparu'r cysylltiad â'r grid drwy linell uwchben barhaus (OHL), a fydd yn cynnwys polion pren, a fydd yn ymdoddi i'r dirwedd yn debyg i'r delweddau isod.



Bydd y polion pren yn ddigon i gario'r swm o bŵer y bwriedir ei gynhyrchu'n ddiogel ac yn sicr a bydd yn ymdoddi'n well i'r dirwedd leol ac yn sicrhau bod effaith weledol y llinell uwchben yn cael ei lleihau. Mae ein dull o lwybro'r llinell uwchben yn canolbwyntio ar leihau'r effeithiau gweledol cymaint â phosibl, gan wneud hyn drwy ddefnyddio cyfuchliniau presennol y tir, yn ogystal â defnyddio coed ar gyfer sgrinio. Yn bwysig, mae effaith weledol yn un o nifer o faterion sydd wedi cael eu hystyried yn y broses llwybro.

Rydym wedi cynnal arolygon ac asesiadau technegol ac wedi ystyried amrywiaeth eang o gyfyngiadau, megis coetir hynafol lleol a chynefin gwarchodedig ymhlith pethau eraill. Rydym hefyd wedi ceisio cadw mor bell i ffwrdd o gartrefi ag sy'n ymarferol. Mae'r gwaith hwn wedi ein helpu i gulhau'r coridor llinell uwchben a ddangosir uchod.




Llun o bolion pren H nodweddiadol

Rydym yn awyddus i glywed eich barn am ein coridor llinell uwchben presennol, ac a oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried wrth i ni barhau i weithio ar ein llwybr dewisol.

Fel rhan o'n hymgyngghoriad, rydym wedi paratoi Dogfen Llwybro ac Ymgynghori (RCD). Mae hwn yn nodi'r broses sy'n cael ei chynnal i nodi'r opsiwn llwybr a ffefrir i ddarparu cysylltiad grid ar gyfer Parc Ynni Moel Chwa. I gael rhagor o wybodaeth am yr RCD siaradwch ag aelod o'r tîm.



Credwn fod nifer o fanteision i ddarparu Parc Ynni ar y safle. Mae’r rhain yn cynnwys:



Bydd cynhyrchu ynni glanach, gwyrddach a mwy cynaliadwy yn lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn helpu i gyrraedd targedau lleol a chenedlaethol.



Bydd cynhyrchu ynni yma yng Nghymru a’r DU yn lleihau ein dibyniaeth ar ffynonellau ynni tanwydd ffosil a fewnforir, gan ddarparu sicrwydd ynni tymor hwy.



Nid oes angen cymorthdaliadau’r llywodraeth ar y prosiect, felly ni fydd yn ychwanegu baich ar drethdalwyr nac yn cynyddu’r ddyled genedlaethol.



Bydd y prosiect yn destun trethiant y DU, gan gynnwys talu ardrethi busnes.




Pecyn cynhwysfawr o fuddsoddiad â ffocws lleol, gan gynnwys Cronfa Budd Cymunedol a fydd yn ei le am oes 40 mlynedd gyfan y Parc Ynni.



Bydd cyfleoedd i wella cynefinoedd bywyd gwyllt ar draws y safle a gwella bioamrywiaeth, trwy bethau fel plannu neu reoli tir.




Byddwn yn gweithio gyda thirfeddianwyr lleol i sicrhau bod y Parc Ynni yn tarfu cyn lleied â phosibl ar arferion amaethyddol.



Mae’r safle eisoes wedi’i nodi fel safle addas ar gyfer datblygiad gwynt ar y tir ar raddfa fawr yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac mae wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer fferm wynt yn flaenorol.



Buddsoddiad sylweddol yn yr economi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan greu swyddi ‘gwyrdd’ a chyfleoedd i uwchsgilio.




Rydym am sicrhau bod ein prosiect yn gwella mynediad i’r rhai sy’n defnyddio’r safle ar hyn o bryd ar gyfer ymarfer corff neu hamdden.

Yn Bute Energy, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein prosiectau yn sicrhau’r buddion mwyaf posibl yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae gennym bum thema allweddol rydym yn canolbwyntio arnynt. Y rhain yw:

- 

Cymorth costau byw – nodi sut y gallwn gefnogi trigolion lleol sy’n cael trafferth gyda chostau byw, yn enwedig y rhai sy’n byw mewn tlodi tanwydd.
- 

Addysg – dylunio a chyflwyno sesiynau addysgol rhyngweithiol i bob oed, codi ymwybyddiaeth am faterion fel newid hinsawdd a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- 

Amgylchedd a diwylliant – ymgysylltu â chymunedau i ddathlu a hyrwyddo’r amgylchedd naturiol a safleoedd diwylliant a threftadaeth lleol.
- 

Cyflogadwyedd – gweithio gyda darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i greu llwybrau a chyfleoedd i ymuno â’r diwydiant ynni adnewyddadwy.
- 

Hamdden ac iechyd – helpu i wella mynediad at weithgareddau hamdden, iechyd a lles lleol i gefnogi iechyd corfforol a meddyliol cymunedau lleol.

Cronfa Budd Cymunedol

Fel rhan o’n prosiect, byddwn yn sefydlu Cronfa Budd Cymunedol i helpu i gyflawni buddsoddiad sylweddol yn lleol. Os bydd ein cais yn llwyddiannus, rydym wedi ymrwymo i ddarparu cronfa flynyddol o tua £7,500 fesul megawat o gapasiti ynni gwynt gosodedig.

Gallai ein cynnig presennol gynhyrchu hyd at 79.2MW y flwyddyn, sy’n golygu y gallai fod cronfa flynyddol o dros £590,000 ar gyfer y safle.

Cadwyn Gyflenwi

Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio cadwyni cyflenwi a busnesau lleol lle bynnag y bo modd i sicrhau y gwneir y mwyaf o botensial buddsoddiad, swyddi a hyfforddiant y prosiect.

Rydym ar hyn o bryd ar gam cynnar iawn o’n prosiect, fodd bynnag, byddwn yn defnyddio’r amser hwn i adeiladu rhwydwaith o gyflenwyr lleol a fydd yn cael eu dwyn ymlaen i gyfnod caffael y prosiect, yn amodol ar dderbyn caniatâd cynllunio. Byddem felly yn annog perchnogion busnesau lleol sydd â diddordeb mewn cyfleoedd caffael yn y dyfodol i gysylltu â ni gydag unrhyw ymholiadau.

Sut allwn ni helpu?

Mae gennym rai syniadau am yr hyn y gallwn ei wneud fel cwmni, ac fel rhan o’n cynnig i helpu i fynd i’r afael â materion sy’n wynebu pobl yn lleol. Fodd bynnag, rydych yn adnabod yr ardal leol, yr ysgolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill, yn llawer gwell na ni.

Dywedwch wrthym beth yr hoffech ei wella neu ei ddatblygu yn eich ardal leol. A oes angen cymorth ariannol ar eu grwpiau neu brosiectau cymunedol lleol? Rydym am glywed gennych chi am yr hyn y dylem fod yn canolbwyntio arno.




Proses yr EIA

Byddwn yn cynnal astudiaethau helaeth ar draws ystod eang o ystyriaethau technegol, amgylcheddol a masnachol. Gelwir hyn yn Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol (AEA).

Bydd y broses EIA yn chwarae rhan hanfodol bwysig wrth nodi a gwerthuso’r effeithiau tebygol, yn gadarnhaol ac yn negyddol, ac yn helpu i lunio dyluniad y Parc Ynni arfaethedig.

Bydd hefyd yn sicrhau bod argymhelliad Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW), a phenderfyniad Gweinidogion Cymru, yn gwbl ymwybodol o effeithiau amgylcheddol tebygol y prosiect.

Bydd penodau allweddol ein EIA yn ymdrin ag:

-  Asesiad Tirlun ac Effaith Weledol
-  Treftadaeth Ddiwylliannol
-  Ecoleg
-  Adareg
-  Sŵn a dirgryniad
-  Mynediad, traffig a thrafnidiaeth
-  Defnydd Tir, Economeg Gymdeithasol a Thwristiaeth
-  Hydroleg, hydroddaeareg a daeareg (gan gynnwys mawn)
-  Materion eraill (gan gynnwys Hedfan, Ansawdd Aer, Telathrebu, Cysgodion Symudol (os oes angen), Damweiniau Mawr a Thrychinebau, Coedwigaeth a Newid Hinsawdd)

Gwerthfawrognw fod nifer o ddatblygiadau tyrbinau gwynt eraill mewn ardaloedd o amgylch y safle. Bydd ein harolygon a’n hasesiadau hefyd yn ceisio casglu data ar y datblygiadau hyn fel y gallwn asesu effaith gronol debygol Parc Ynni Moel Chwa ochr yn ochr â datblygiadau eraill.

Bydd canlyniadau a chanfyddiadau’r arolygon a’r asesiadau a gynhelir fel rhan o’r broses EIA yn cael eu manylu mewn Datganiad Amgylcheddol, y bydd drafft ohono ar gael i’w adolygu yn ystod yr ymgynghoriad statudol yn ddiweddarach eleni, a bydd fersiwn terfynol yn cael ei gyflwyno hefyd fel rhan o’n cais cynllunio.




Asesu effaith weledol

Gwyddom fod sut olwg sydd ar y cynllun yn ystyriaeth allweddol i lawer o drigolion lleol.

Bydd asesu effaith weledol y Parc Ynni arfaethedig ar yr ardal leol yn rhan allweddol o’n gwaith parhaus. I wneud hyn, byddwn yn cynnal Asesiad o’r Effaith ar y Dirwedd ac Effaith Weledol (LVIA), a fydd yn rhan o’n Datganiad Amgylcheddol. Bydd hwn yn edrych ar wahanol olygfannau o amgylch y safle o bellteroedd amrywiol, a byddwn yn datblygu delweddau dangosol i ddangos sut olwg fydd ar y safle o’r safleoedd hyn i’n helpu i ddylunio’r cynigion.

Gan nad yw lleoliadau ein tyrbinau wedi’u gosod eto, bydd delweddau manylach ar gael i’w hadolygu a rhoi sylwadau arnynt yn ystod ein hymgynghoriad statudol yn ddiweddarach eleni, gan gynnwys cynhyrchu ‘Parth Gwelededd Damcaniaethol’ (ZTV), a fydd yn dangos o ble gallai’r tyrbinau fod yn weladwy.



Golygfa yn edrych i’r gogledd tuag at ardal coridor y llinell uwchben

Golygfa yn edrych i’r gogledd tuag at ardal coridor y llinell uwchben

Golygfa yn edrych tua’r de tuag at safle arfaethedig y Parc Ynni

Sŵn

Gellir cynhyrchu sŵn o fferm wynt weithredol mewn nifer o wahanol ffyrdd. Mae p’un a yw’r sŵn hwn yn glywadwy i bobl sy’n byw yn agos at y safle neu’n ei ddefnyddio yn dibynnu ar lawer o ffactorau, gan gynnwys pellter o’r tyrbîn, cyflymder gwynt/cyfeiriad gwynt, ac a oes unrhyw ffynonellau sŵn cefndirol (e.e. o lif traffig lleol).

Mae asesiad o’r lefelau sŵn presennol ar draws y safle ac yn yr ardaloedd cyfagos yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Unwaith y byddwn wedi casglu’r data hyn, byddwn yn ystyried unrhyw effeithiau posibl o’r sŵn disgwyliedig a gynhyrchir gan waith dydd i ddydd y Parc Ynni. Bydd y data hyn hefyd yn ein galluogi i nodi pa fesurau lliniaru i’w rhoi ar waith i fynd i’r afael ag unrhyw faterion a nodir.



Trafnidiaeth, adeiladu a gweithredu

Trafnidiaeth a mynediad

Ar hyn o bryd rydym yn y broses o asesu'r rhwydwaith ffyrdd lleol i ddeall pa lwybrau fydd yn gallu darparu ar gyfer traffig adeiladu heb gael eu heffeithio'n negyddol. Bydd y gwaith hwn yn rhan o'n Hasesiad Effaith Traffig.

Er ein bod yn ein dyddiau cynnar, mae'n debygol y bydd mwyafrif y cerbydau mwy, yn enwedig y rhai sy'n cario cydrannau tyrbinau wedi'u cyn-gydosod, yn defnyddio'r A5 i gael mynediad i'r safle er mwyn diogelu ffyrdd lleol llai addas.

Byddwn hefyd yn ymgynghori'n helaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, ac ymgynghoreion technegol eraill i gytuno ar lwybr mynediad addas i'r safle.

Fel rhan o'n hymgyngoriad hoffem glywed eich barn ar ba ffyrdd i'w defnyddio/osgoi fel ein bod yn gallu defnyddio eich gwybodaeth leol yn ein gwaith i fireinio'r llwybrau mynediad arfaethedig.



Adeiladu

Mae'r gwaith adeiladu'n debygol o gymryd rhwng 1-2 flynedd a byddai'n cael ei wneud mewn nifer o gamau.

Er mwyn sicrhau bod y broses adeiladu yn cael yr effaith leiaf bosibl ar y gymuned leol byddwn yn cyflwyno Cynllun Rheoli Adeiladu Amlinellol fel rhan o'n cais.

Bydd y Cynllun Rheoli Adeiladu yn cael ei lywio gan nifer o ffactorau, gan gynnwys dyluniad terfynol y Parc Ynni ac aliniad yr OHL, canfyddiadau'r broses EIA, ymgysylltu ag ymgynghoreion ac adborth gan randdeiliaid a thrigolion.



Gweithredu a datgomisiynu


Hyd oes ddisgwyliedig y prosiect yw 40 mlynedd. Ar ôl i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau, ac mae'r Parc Ynni yn weithredol, bydd ein peirianwyr yn asesu ac yn cynnal a chadw'r tyrbinau a'r seilwaith ar y safle yn rheolaidd. Bydd modd rhoi gwybod i ni am unrhyw faterion ar y safle a byddwn yn mynd ar drywydd hynny yn unol â hynny.

Unwaith y bydd bywyd cynhyrchu'r Parc Ynni wedi dod i ben bydd Bute Energy hefyd yn gyfrifol am y broses ddatgomisiynu. Mae hyn yn rhywbeth rydym yn ei gymryd yn hynod o ddifrif. Ar ddiwedd gweithrediad y Parc Ynni bydd ystod o asesiadau, arolygon a chynlluniau rheoli yn cael eu cytuno gyda'r awdurdodau perthnasol, gan sicrhau bod y tyrbinau a'r seilwaith ategol yn cael eu symud o'r safle yn ddiogel ac yn sicr.

Byddwn hefyd yn gyfrifol am adfer y tir ar draws y Parc Ynni i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o effaith ar yr amgylchedd lleol.



Camau nesaf



Sut i gymryd rhan

Diolch i chi am gymryd yr amser i ymweld â’n digwyddiad a dysgu rhagor am y prosiect. Dyma ein hymgynghoriad ymgysylltu cynnar i ganfod barn leol ar ein cynigion, ac mae’n gyfle i chi amlygu unrhyw beth y dylem fod yn canolbwyntio arno wrth i ni geisio mireinio ein cynigion.

Byddwn yn cynnal cylch arall o ymgynghori yn ddiweddarach eleni, a fydd yn darparu gwybodaeth fanwl am faterion fel effaith weledol, sŵn, traffig ac adeiladu ac effaith amgylcheddol.

Mae eich barn yn bwysig i ni yn y cyfnod cynnar hwn. Mae croeso i chi roi adborth gan ddefnyddio unrhyw un o’r dulliau a amlinellir isod:

- » **Gwefan y prosiect** - www.parcynnimoelchwa.cymru
- » **E-bost** - moel.chwa@bute.energy
- » **Ffurflenni adborth** - ar gael ar-lein drwy wefan y prosiect, neu yn ein sesiynau galw heibio cyhoeddus. Fel arall, dewch i gyswllt a gofynnwch am gopi caled ac fe wnawn ni ei bostio atoch
- » **Rhadbost** - FREEPOST TC CONSULTATION (nid oes angen cyfeiriad pellach na stamp)
- » **Rhadffôn** - 0800 699 0081 yn ystod oriau arferol y swyddfa (Dydd Llun i Ddydd Gwener 9am i 5pm ar wahân i wyliau cyhoeddus)

Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau yw 11 Mehefin 2023.



Ewch i – www.parcynnimoelchwa.cymru